



Cronfa Datblygu
Cynaliadwy

Sustainable
Development Fund

Cronfa Datblygu Cynaliadwy

Canllawiau'r Ffurflen Gais

*“Ystyr cynaliadwyedd yw meddwl
am y ffordd rydym yn byw a newid
ein gwerthoedd a'n gweithredoedd i
sicrhau ansawdd bywyd da nawr ac
i genedlaethau'r dyfodol.”*

Cwblhau'r Ffurflen Gais am Grant

YN GYNTAF OLL, cyn dechrau cwblhau'r ffurflen:

Bydd rhaid eich bod wedi cynllunio'ch prosiect yn ofalus:

- Ydych chi wedi ymgynghori â grwpiau a sefydliadau lleol eraill? Ydych chi wedi cynnwys yr holl bartneriaid posibl?
- Ydych chi'n siŵr nad yw unrhyw grŵp arall yn gwneud yr un peth yn barod?
- Pwy fydd yn gwneud yr holl waith sydd ei angen i gwblhau'ch prosiect?
- Ydych chi wedi llunio cyllideb a chael dyfynbrisiau/amcangyfrifon ysgrifenedig?
- Darllenwch y meini prawf ar gyfer y Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn ofalus iawn a nodwch sut mae'ch prosiect yn bodloni'r meini prawf hyn -

Sut mae eich project yn:

- Rhoi sylw i faterion economaidd, amgylcheddol, cymunedol a diwylliannol?
- Ceisio cefnogaeth/cyfranogiad cymunedau o fewn y Parc Cenedlaethol?
- Dod â phobl at ei gilydd mewn partneriaethau i fynd i'r afael â phroblemau?
- Arddangos arloesi ac arfer gorau?
- Cynnwys pobl ifanc?

Bydd eich prosiect yn cael ei asesu yn erbyn y meini prawf hyn ac ar y cais bydd rhaid i chi ddweud wrthym yn union sut mae'ch cynigion yn eu bodloni.

Nid oes rhaid i brosiectau fodloni pob un o'r meini prawf yn llawn er mwyn cael cymorth grant, ond mae'n helpu os gallwch esbonio sut rydych chi wedi ystyried pob un ohonynt.

Er bod croeso i chi roi gwybodaeth ychwanegol i gefnogi'ch cais, mae'n rhaid i chi gwblhau'r Ffurflen Gais ac ateb pob un o'r cwestiynau.

Cwblhau Adrannau'r Ffurflen

Adran 1: Manylion Cyswllt

Mae'n rhaid i ni wybod enw eich prosiect, enw a chyfeiriad eich sefydliad a phwy fydd y prif gyswllt ar gyfer y cais hwn. Dylai fod yn rhywun sydd wedi chwarae rhan flaenllaw wrth ddatblygu'r prosiect.

Adran 2: Eich sefydliad

Mae'n rhaid i ni wybod sut mae'ch grŵp wedi'i drefnu - does dim ots os nad yw'n elusen gofrestredig neu'n gwmni. **Bydd angen cyfansoddiad sylfaenol arnoch**, os dim ond i sicrhau bod pawb yn cytuno â nodau ac amcanion y grŵp, ac amlinellu trefniadau ar gyfer trefnu cyfarfodydd a delio â chyllid.

Os oes angen cymorth arnoch i lunio cyfansoddiad, rhwch wybod i ni - gallwn ni helpu!

Bydd rhaid i'ch sefydliad (neu un o'ch sefydliadau partner) gael cyfrif banc yn ei enw er mwyn i chi allu cael taliadau grant.

Adran 3: Caniatâd

Os yw'ch prosiect yn cynnwys datblygu tir neu adeiladau, rhaid i ni gael manylion perchnogaeth, prawf bod yr holl gydsyniadau cynllunio gennych ac ati. Gallai **'cydsyniadau eraill'** gynnwys cymeradwyaeth adeilad/heneb restredig.

Os nad yw'ch grŵp yn berchen ar y tir/adeilad lle y bydd y prosiect yn digwydd, bydd rhaid i ni weld cydsyniad ysgrifenedig gan y perchnogion cyfreithiol.

Os yw'r tir rydych yn bwriadu gweithio arno yn dir dynodedig fel **'SoDdGA - Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig'** bydd angen caniatâd **Cyfoeth Naturiol Cymru** arnoch.

Os bydd gwirfoddolwyr yn gweithio ar eich prosiect, oes gennych chi'r yswiriant priodol ar gyfer damweiniau?

Os ydych chi'n berchen ar y tir/eiddo, oes gennych chi yswiriant? Bydd rhaid i ni weld tystiolaeth o hyn, e.e. copi o'ch dogfen bolisi. Os oes angen cymorth arnoch i gael yswiriant, rhwch wybod i ni.

Eich cyfrifoldeb chi yw cael gwybod pa ganiatâd sydd ei angen a chael y caniatâd hwnnw cyn cyflwyno cais.

Adran 4: Disgrifiad o'r Sefydliad

Yn fyr, dywedwch pam y cafodd eich sefydliad ei ffurfio a beth yw ei nodau a'i amcanion - gwnaiff pwyntiau bwled y tro.

Adran 5: Sut ydych chi wedi adnabod yr angen ar gyfer eich prosiect?

Mae un o'r prif feini prawf ar gyfer y Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn ei gwneud hi'n ofynnol i unrhyw brosiect a gefnogir gael cyfranogiad a chefnogaeth go iawn y gymuned leol.

- Sut ydych chi'n gwybod bod pobl leol yn cefnogi'r prosiect hwn?
- Pa fath o ymgynghori lleol ydych chi wedi'i wneud? Bydd rhaid i ni weld tystiolaeth glir bod hyn wedi digwydd. Os oes angen cymorth arnoch i wneud hyn, rhwch wybod i ni - gallwn eich helpu chi i sefydlu digwyddiadau ymgynghori.

- Oes unrhyw sefydliadau eraill y dylid eu cynnwys neu eu hymgyngori â nhw? e.e. grwpiau cymunedol lleol eraill, cyngor cymuned, ysgolion a cholegau, sefydliadau cynghori arbenigol, staff Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Cyfoeth Naturiol Cymru, Busnes Cymru?
Os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes, efallai y bydd rhaid i chi wneud ychydig o waith ymchwil i wirio a sicrhau nad ydych wedi anghofio unrhyw un.

Adran 6: Manylion y Prosiect

Dywedwch wrthym am eich prosiect - beth yn union ydych chi'n bwriadu ei wneud? Gallwch atodi taflenni ychwanegol os oes angen. Bydd rhaid i chi gyflwyno amserlen/cynllun datblygu prosiect sy'n amlinellu rhaglen ar gyfer cyflawni nodau eich prosiect - bydd hyn yn cynnwys dyddiadau allweddol.

Os ydych yn gwneud cais am arian i dalu am gostau gweithiwr, bydd rhaid i chi gyflwyno:

- Disgrifiad o'r Swydd
- cynllun gwaith ar gyfer 12 mis cyntaf y swydd
- manylion am y raddfa gyflog, Yswiriant Gwladol, a gweddill y gyllideb ar gyfer y swydd (e.e. symiau ar gyfer hyfforddiant, teithio, pensiwn ac ati)
- manylion hysbyseb a recriwtio. Rhaid dilyn arferion gorau cyfle cyfartal
- manylion ynghylch sut y caiff y swydd ei hariannu ar ôl i'r grant Cronfa Datblygu Cynaliadwy ddod i ben.

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi rhoi sylw i'r materion allweddol - e.e.

- ==> Ydych chi wedi meddwl am faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg (neu iaith arall)?
- ==> Oes cyfleoedd i gynnwys pobl ifanc?
- ==> Sut byddwch yn darparu ar gyfer anghenion pobl â nam corfforol?
- ==> Oes cyfleoedd i gynnwys hyfforddiant ffurfiol/anffurfiol?

Adran 7: Canlyniadau'r Prosiect

Rhestrwch y canlyniadau rydych yn eu rhagweld, y newidiadau y bydd eich prosiect yn eu hysgogi neu'n eu galluogi, a'u heffaith debygol ar eich cymuned. Mae canlyniadau yn wahanol i'r allbynnau y byddwch yn eu creu.

Meddyliwch beth fydd pobl yn gallu ei wneud yn well, yn gyflymach, neu'n fwy effeithlon, neu'r pethau nad oeddent yn gallu ei wneud o'r blaen. Yna meddyliwch am yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar ddefnyddwyr, eich cymuned a buddiolwyr eraill y prosiect. Mae canlyniadau yn ein galluogi i benderfynu ar y gwahaniaeth y gall ein cyllid ei wneud.

Adran 8: Y Rhestr Wirio Datblygu Cynaliadwy

Dyma lle rydych yn cael asesu a yw'ch prosiect yn cyfateb â'r meini prawf ar gyfer y gronfa. Nid oes rhaid i chi allu ateb ie i bob cwestiwn, ond po fwyaf y gall eich prosiect gael effaith gadarnhaol ar gynaliadwyedd y mwyaf tebygol y caiff ei ariannu.

Adran 9: A, B, C ac Ch**Sut mae'ch prosiect yn cyfrannu at Ddatblygu Cynaliadwy**

Dywedwch wrthym yn union sut mae'ch prosiect yn cyfateb â **nodau'r** Gronfa Datblygu Cynaliadwy, edrychwch yn ôl dros eich **Rhestr Wirio Datblygu Cynaliadwy**, ac yn union beth fydd **canlyniadau** eich prosiect ac esboniwch yr **effaith** y caiff eich prosiect ar elfennau Datblygu Cynaliadwy.

Adran 9: Dd

Esboniwch sut mae'ch prosiect wedi darparu mynediad cyfartal i siaradwyr Cymraeg.

Adran 10: Pa strategaethau lleol ydy'ch prosiect yn eu cefnogi?

Ai prosiect 'un-tro', annibynnol yw'ch prosiect? Neu a yw e.e. yn rhan o gynllun gwella cymuned ehangach, neu'n rhan o strategaeth awdurdod lleol/Llywodraeth Cymru?

Ydy'r prosiect yn unol â Chynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog?

Adran 11: Sefydliadau Partner

Mae'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn ei gwneud hi'n ofynnol i brosiectau a gefnogir ddod â phobl ynghyd mewn partneriaethau i fynd i'r afael â phroblemau. Dywedwch wrthym ba sefydliadau/unigolion rydych yn gweithio â nhw mewn partneriaeth ar ddatblygu a rheoli'ch prosiect, a disgrifiwch rôl pob partner.

Adran 12: Amserlen y Prosiect

Pryd ydych chi'n bwriadu dechrau a gorffen y prosiect a ariannwyd gan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy?

Adran 13: Cynnal a Chadw'r Prosiect

Dywedwch wrthym sut byddwch yn sicrhau bod y prosiect yn cael ei gynnal/yn parhau yn y tymor hwy.

Pwy fydd yn gwneud y gwaith, a sut caiff y gwaith ei ariannu/dalu amdano?

Fydd y prosiect yn ariannol hyfyw yn y tymor hwy drwy gynhyrchu ei incwm ei hun, fydd e'n parhau i gael mewnbwn gan wirfoddolwyr neu a fydd angen mwy o gyllid grant arno yn y dyfodol?

Adran 14: Manylion Cyllideb y Prosiect

Yr egwyddor gyffredinol ar gyfer cwblhau'r adran hon yw - y mwyaf o fanylion gorau olli!

Mae'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn gallu cefnogi prosiectau cyfalaf a referniw.

==> **Referniw** = yr arian y bydd ei angen arnoch i gefnogi costau prosiect cylchol e.e. cyflogau, rhent, gwresogi a golau;

==> **Cyfalaf** = treuliau 'un-tro' e.e. i brynu offer.

- Os ydych yn gwneud cais i ariannu prosiect sy'n rhan hanfodol o fenter fwy - dylech gynnwys y costau ar gyfer y fenter gyfan. Bydd hyn yn ein helpu i gael darlun o'r prosiect cyfan, a'r holl ffynonellau cyllid.

- Os ydych yn gwneud cais am gostau referniw ar gyfer swydd staff, dylech gynnwys unrhyw gostau cyfalaf hefyd, ac esbonio o ble y daw'r arian i dalu amdanynt.

Deunyddiau

Rhestrwch yn fanwl yr holl offer y bydd eu hangen arnoch. Peidiwch â rhoi brasamcanion - ceisiwch ddyfynbrisiau ysgrifenedig am bopeth y bydd ei angen arnoch - byddwn yn gofyn i'w gweld nhw..

ENGHRAIFFT

Agweddau ar y Prosiect	Manylion	Cost	Gwerth yr eitemau i'w rhoi	Swm i'w dalu gan y grŵp
Plannu	200 o goed derw @ 50c yr un	£100.00	£50.00	£50.00

Mae'r grŵp am brynu 200 o goed derw. Mae'r cyflenwr yn rhoi 100 o goed (gwerth £50), felly bydd y swm gwirioneddol y bydd y grŵp yn gorfod ei dalu tua £50.

Llafur

ENGHRAIFFT

Darparwyd gan	Manylion	Cost gros	Gwerth y llafur a roddwyd	Cost i'w dalu gan yr grŵp
Grŵp Cymunedol	10 person x 2 ddiwrnod o waith yr un = 10 x 2 x £50	£1,000	£1,000	£0
Jac Codi Bawr	Paratoi'r tir	£300	£100	£200

Y gost llafur gwirfoddol a roddwyd yw £50 y dydd.

Yn yr achos hwn, gall y grŵp gyfrif gwerth £1,000 ei amser gwirfoddolwyr fel 'cyllid cyfatebol'. Bydd y cwmni lleol sy'n paratoi'r safle yn codi £200 ar y grŵp, ond bydd yn rhoi gwerth £100 o hurio offer.

Mae'n bwysig rhestru'r holl roddion a roddwyd 'mewn nwyddau' - os ydynt yn ddeunyddiau neu'n llafur. Gall y Gronfa Datblygu Cynaliadwy ariannu **50% o gyfanswm eich costau prosiect yn unig fel rheol**, felly gall gwerth y rhoddion hyn gyfrif fel eich cyllid cyfatebol.

Codi arian

Rhestrwch yr holl geisiadau rydych wedi'u gwneud neu'n bwriadu eu gwneud a'r holl weithgareddau codi arian rydych yn eu cynllunio. Os ydych eisoes wedi sicrhau peth arian, rhowch y cyfanswm yn y golofn '**swm wedi'i sicrhau**'.

Os ydych yn dal i aros i glywed canlyniadau'r ceisiadau, nodwch gyfanswm y rhain yn y golofn '**codi arian sy'n weddilli**'.

Os nad oes gennych yr holl arian sydd ei arnoch eto, gall y Panel Cyngori Grantiau benderfynu dyfarnu cymorth grant, yn amodol ar sicrhau'r arian sy'n weddill.

Crynodeb o'r Gyllideb

Mae'r adran hon yn dwyn ynghyd y cyfansymiau o'r tair adran yn y Ffurflen

- ==> Cyfanswm Cost y Prosiect - mewn gwirionedd, dyma gyllideb eich prosiect - cyfanswm eich holl gostau deunyddiau a llafur.
- ==> Cyfanswm yr arian a godwyd eisoes
- ==> Cyfanswm yr arian sy'n weddill i'w godi
- ==> Cyfanswm y rhoddion a roddwyd mewn nwyddau
- ==> Swm a geisiwyd gan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy - faint hoffech chi wneud cais amdano?
- ==> Diffyg - ar ôl eich holl godi arian, a chan gymryd eich bod yn llwyddo i gael grant o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy, a fydd diffyg gennych o hyd? Os felly, sut byddwch chi'n codi'r arian ychwanegol? Os nad ydych yn codi'r holl arian sydd ei angen arnoch, fydd rhaid i chi newid neu leihau cwmplas eich prosiect?

Adran 15: Llofnod y sawl sy'n cwblhau'r ffurflen

Pan fyddwch yn llofnodi'r ffurflen, rydych yn ardystio bod aelodau eraill o'ch grŵp a/neu eich partneriaid prosiect i gyd yn gwybod am y cais ac yn cytuno'n llwyr ag ef. Mae hyn yn golygu eich bod wedi trafod y cynigion mewn cyfarfodydd, a bydd penderfyniadau a chymeradwyaeth y grŵp wedi cael eu cofnodi.

Rydych hefyd yn cadarnhau bod yr wybodaeth rydych wedi'i rhoi yn gywir.

Adran 16: Canolwyr

Bydd rhaid i chi roi enwau **dau berson** sy'n annibynnol ar eich grŵp/sefydliad, ac sydd heb berthyn mewn unrhyw ffordd ag aelodau'r Pwyllgor neu staff eich sefydliad. Dylai canolwyr hefyd fod yn annibynnol ar Banel Cyngori Grantiau y Gronfa Datblygu Cynaliadwy ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Dylai'r canolwyr fod â dealltwriaeth dda o'ch gwaith a'r prosiect arfaethedig yn arbennig.

Os ydych yn ansicr ynghylch pwy i'w ddewis, siaradwch â'r Swyddog Datblygu Cynaliadwy.

Dogfennau Ategol

Ni fydd aelodau'r Panel Cyngori Grantiau, a fydd yn gwneud penderfyniad am eich cais, yn gwybod llawer iawn am gynlluniau eich prosiect. Bydd y Swyddog Datblygu Cynaliadwy yn cyflwyno eich cynigion i'r Panel, a byddai unrhyw wybodaeth ategol sydd gennych i aelodau'r Panel ei hystyried yn helpu i gyflwyno eich achos - e.e. cynlluniau, ffotograffau (os yw'ch prosiect yn cynnwys adeilad neu safle), adroddiadau ategol.

Hefyd bydd angen darnau eraill o wybodaeth ategol arnom fel y rhestrir. Darllenwch y rhestr yn ofalus, a gwnewch yn siŵr eich bod yn amgáu popeth gyda'ch cais.

YN OLAF.....

Anfonwch eich ffurflen gais wedi'i chwblhau at:

Helen Roderick (neu) **Ceri Bevan**

Swyddog Datblygu Cynaliadwy

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog,

Plas-y-Ffynnon, Ffordd Cambria,

Aberhonddu, Powys,

LD3 7HP

Os oes unrhyw ymholiadau gennych am unrhyw agwedd ar y ffurflen gais neu'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy, neu os oes angen cymorth arnoch i ddatblygu eich prosiect -

MAE CROESO I CHI GYSYLLTU Â NI!

Rydym ni yma i helpu.

Ffôn: 01874 620471

E-bost: helen.roderick@beacons-npa.gov.uk

neu

ceri.bevan@beacons-npa.gov.uk

I gael rhagor o wybodaeth ewch i:

<http://www.bannaubrycheiniog.org/cymunedau/cynaliadwyedd/y-gronfa-datblygu-cynaliadwy/y-gronfa-datblygu-cynaliadwy>

Diolch.